

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **12 Rhagfyr 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-12/16: Presennol

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Eirwyn Williams; Cyng Sian Williams.
Clerc – Dr Catrin Jones.

3-12/16: Datgan diddordeb

Dim datganiad

4-12/16: Siaradwr Gwadd – Parcio yng Nghriccieth I

Croesawyd Iwan ap Trefor (Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd) i siarad am gynlluniau y Cyngor ar gyfer parcio yng Nghriccieth. Nododd ei fod yn bwysig i weithio gyda'r Cyngor Tref i geisio datrys problemau parcio, ac esboniodd bod y broses o wneud newidiadau yn gyfreithiol hir.

Roedd proses ymghori cyhoeddus am dâl parcio ym maes parcio Aber Eistedd wedi cymeryd lle, a'r canlyniad oedd y byddai y tâl yn gostwng o £3.50 i £1.00. Awgrymwyd y dylai Cyngor Gwynedd wella yr arwyddion talu yn y maes parcio ger Dylan's er mwyn gwneud y gost yn amlwg - £1.00 am bedair awr. Dylai hyn annog fwy o bobl i ddefnyddio y maes parcio. Nodwyd bod newidiadau i gyfyngiadau parcio wedi eu cytuno gan y Cyngor Tref yn y cyfarfod diwethaf, a bod cynigion newydd ar yr agenda yn y cyfarfod yma. Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cynlluniau gan Cyngor Gwynedd.

Mynegwyd consyrn am gyflymder y traffic yn dod o gyfeiriad Pwllheli i fewn i dref Criccieth a nodwyd bod nifer o ddamweiniau wedi digwydd yna. Holwyd a fyddai modd i osod arwydd arafu traffic ar y darn yna o ffordd. Cytunodd Iwan ap Trefor i gael pris ar gyfer gwneud y gwaith.

Roedd cyflymder traffic hefyd yn gonsyrn ger Ty'n Rhos, a nodwyd nad oedd yr arwydd cyflymder traffic yn gweithio yn effeithiol yna. Cytunodd Iwan ap Trefor i edrych fewn i'r mater a sut fyddai gwneud pethau yn fwy diogel, er enghraifft drwy gyfyngu cyflymder y traffig i 20 milltir yr awr.

Nodwyd bod loriau mawr cwmni Wilko's yn gwneud defnydd o lonydd cul yr ardal, a bod hyn yn creu problem. Esboniodd Iwan am Trefor nad oedd Cyngor Gwynedd yn medru gwneud dim am hyn ond y byddai y Cyngor Tref yn medru sgwennu at y cwmni i fynegu consyrn.

.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr ap Trefor am ei bresenoldeb ac am y cyfle i drafod y materion yma.

Penderfynwyd:

- : Derbyn argymhellion Cyngor Gwynedd ar gyfer cyfyngiadau parcio – gweler 9-12/16
- : Y dylid ysgrifennu i gwmni Wilko's i fynegu consyrn am ddefnydd eu loriau mawr ar lonydd cul yr ardal a gofyn iddynt yn hytrach ddefnyddio y prif lôn rhwng Porthmadog a Phwllheli.

5-12/16: Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

6-12/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- **Cyngor Gwynedd.** Nodwyd bod y Comisiwn Ffiniau yn bwriadu rhoi cyflwyniad i Gyngorau Cymuned a Thref ar yr adolygiad etholiadol. Cynhelir dau gyflwyniad – 9fed Chwefror am 6 ym yn

Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon a 14eg o Chwefror yn Siambr Dolgellau, Penarlag Dolgellau hefyd am 6 yh. Bydd mwy o fanylion yn dilyn.

- **Un Llais Cymru – sesiynau hyfforddiant yn yr ardal.** Nodwyd bod nifer o gyrsgiau hyfforddiant yn digwydd yng Ngogledd Cymru ym mis Ionawr 2017 a bod bwrsari ar gael i gynghorau cymwys. Cytunwyd y dylai y Clerc geisio mynychu y cwrs ar Gynllunio Cymunedol ac y byddai y Cyngor yn barod i dalu y costau priodol.
- **Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad ynglŷn â newid enw Cynlluiad Cenedlaethol Cymru** –Nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi ei lawnsio ar 8 Rhagfyr 2016. Byddai newid enw yn amodol ar basio Mesur Cymru a oedd gerbron Senedd y DU. Cytunwyd i gylchredeg yr ymgynghoriad i aelodau'r Cyngor ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod nesaf. Roedd angen ymateb erbyn 3 Mawrth 2017.
- **Un Llais Cymru – Llywodraeth Cymru a Lluio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) –** Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith i lunio'r FfDC a fydd yn gynllun datblygu defnydd tir cenedlaethol. Bydd hwn yn disodli'r Cynllun Gofodol Cymru presennol ac yn nodi'r fframwaith gofodol ar gyfer defnyddio tir yng Nghymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Maent yn cynnal Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau i'w cyflwyno erbyn 7 Mawrth 2017. Cytunwyd i gylchredeg yr ymgynghoriad i aelodau'r Cyngor ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod nesaf. Roedd angen ymateb erbyn 3 Mawrth 2017 (10.30 i 12.30) –Roedd manylion newydd ddod i law am gyfarfodydd trafod, a'r un agosaf oedd ar 7 Chwefror yn Llandudno. 'Roedd modd i ddau unigolyn o bob sefydliad i fynychu.

7-12/16: Gohebiaeth

a. **Cyngor Gwynedd – Gohebiaeth ar Newid yn Nhrefniant Ad-Daliad Costau Cynnal**

Llwybrau Cyhoeddus: Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn y wybodaeth ar gyfer y newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus yn y cyfarfod diwethaf. (Cofnod 6/11/16), 'Roedd angen i'r Cyngor ymateb i'r holiadur i gadarnhau os oedd Cyngor Criccieth am gymryd rhan yn y trefniant ad-dalu yn 2017/18 neu beidio.

Cytunwyd ar yr ymateb fel a ganlyn:

1. Y byddai ychydig o effaith colli rhagor neu'r cyfan o'r ad-daliad blynyddol ar gyfer cynnal llywbrau yn yr ardal.
2. Nad oedd y Cyngor yn bwriadau codi arian yn benodol i gwrdd â'r gost o gynnal llwybrau cyhoeddus
3. Efallai y byddai y Cyngor yn barod i glustnodi rhan o'n cyllidebau at waith cynnal llwybrau cyhoeddus
4. Bod yna llwybrau o fewn ein cymuned sy'n allweddol i'r ardal ac sydd rhaid eu cynnal ond mae'n annhebyg bydd gyda y Cyngor y cyllid i'w cynnal. Nodwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i gynnal y Llwybr Arfordir. Nodwyd y llwybrau cyhoeddus canlynol yn flaenoriaeth:

Llwybrau Cyhoeddus Criccieth Categori 1 a 2

- 1 Stryd Fawr ger y becws – Dinas
- 2 Henbont Road – Stanley Road – Marine
- 3 Garth Celyn – Holywell Terrace
- 5 Salem Terrace – Parciau Mawr
- 10 Lon Ednyfed – Golff
- 20 Cynffon y Cath
- 22 Llwybr Dryll – Pont Rheilffordd
- 23 Clwb Tennis – Muriau a dros y cae (bridleway) i Chynffon y Cath

Categori 3

11 Gloddfa - Nant y Wyddan a Braich y Saint i Gloddfa

- 5. Byddai Cyngor Criccieth yn fodlon ystyried cydweithio gyda Chyngor Cymuned neu Dref gyfagos er mwyn rhannu adnoddau cynnal llwybrau – hynny yw gyda Dolbenmaen a Llanystumdwy.
- 6. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut gall y Cyngor gyfrannu at gynnal llwybrau cyhoeddus.

b. Cyngor Gwynedd – Costau Etholiadol Lleol 2017

Nodwyd y wybodaeth gan Cyngor Gwynedd a oedd yn amcan costau ar gyfer cynnal etholiadau –

Hyd at 1,000 o etholwyr £1250

Hyd at 2,000 o etholwyr £1750

Nodwyd y byddai cost o £100 os fydd yr etholiad yn y Gymuned/Ward yn ddiwrthwynebiad.

Hefyd nodwyd, oherwydd yr etholiadau yn 2017, bod moratoriwm ers 8 Tachwedd 2016 ar lenwi swyddi gweigion achlysurol ar y Cyngor.

c. Cyngor Gwynedd – Cynllun annogaeth bod yn Gynghorydd

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi lawnsio cynllun a oedd yn anelu i annog mwy o ferched, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig ac aelodau o grwpiau eraill a oedd yn cael eu tan-gynrychioli i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr – (gweler pwynt 8 o gynllun gweithredu Mark Drakeford isod yn e). Mae dwy fideo ar gael ar wefan y Cyngor ar “Bod yn Gynghorydd”, ac hefyd ar ffrwd Twitter a Facebook . Nodwyd hefyd bod sesiynau paratoi ymgeiswyr ar gyfer bod yn gynghorwyr Sir am 6 pm ar :

- 17/1/2017 yn Ystafell Gyfarfod Frondeg Pwllheli
- 18/1/2017 yn swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau
- 19/1/2017 yn Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor Caernarfon

Cytunwyd i rhoi yr hysbysiadau yn y Llyfrgell ac yn y Swyddfa Bost.

d. Cyngor Gwynedd – Canclwm Japan, Criccieth

Nodwyd y wybodaeth a oedd wedi dod drwy law y Cynghorydd Eirwyn Williams bod rhaglen waith wedi cychwyn eleni i drin y canclwm (Japanese Knotweed) yng Nghriccieth – sydd mewn tri lle – tu ôl i’r toiled cyhoeddus, ar y llwybr i’r copa ac yn drwchus iawn gyferbyn â’r tai ar Lôn Fach – a ble mae’r trigolion wedi bod yn bryderus am y sefyllfa a’r niwed i eiddo gall ddigwydd oherwydd y canclwm

Nodwyd bod y gwaith gan gwmni arbenigol o Ddolgellau yn cynnwys chwistrelli’r canclwm ddwywaith yn ystod y tymor tyfu am gyfnod o bum mlynedd. Ar ddiwedd pob tymor bydd y cwmni yn torri ac yn casglu’r canclwm marw ac yn ei losgi ar y safle yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar drin y pla hwn. Nid oedd claddu’r canclwm ar y safle na mynd a’r canclwm i ffwrdd i domen gwastraff arbenigol yn opsiynau ymarferol yma. Trwy wneud y gwaith hwn dros gyfnod o bum mlynedd gobeithio y byddai ehangder y canclwm yn cael ei reoli ac efallau yn cael ei ddiddymu yn llwyr.

e. Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Dwyfor 14 Rhagfyr 2016

Bydd y cyfarfod sydd yn Gaernarfon yn cael ei fynychu gan y Cadeirydd a’r Clerc – Bydd hwn yn gyfle da i gael gwybodaeth ddefnyddiol i’n Cyngor, ac i wrando ar brofiadau cynghorau cymuned a thref eraill, mewn cyfnod sy’n arbennig o bwysig i ddelio gyda’r cynigion a wneir am wasanaethau ac asedau gan Cyngor Sir Gwynedd.

Nodwyd yn arbennig yr eitemau canlynol:

- 2.Cyflwyniad gan Llewelyn Rhys o Arloesi Gwynedd Wledig
 - 6.Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar yr agenda ail-drefnu gwasanaethau
 - 8.Agenda newydd ar gyfer Cynghorau Tref a Cymuned – byddai trafodaeth am gynigion Mark Drakeford AC yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Lleol – a oedd wedi rhoi neges gadarnhaol iawn fod gan gynghorau cymuned a thref rôl bwysig iawn i’w chwarae wrth ddarparu gwasanaethu cyhoeddus yn y dyfodol.
- ‘Roedd wedi cynnig cynllun gweithredu wyth pwynt ar gyfer y sector cynghorau lleol yng Nghymru:
- (1) Cynhyrchu pecyn gwaith i gefnogi cynghorau cymuned i weithio trwy’r hyn sydd ei angen wrth dderbyn gwasanaethau ac asedau newydd, gan adeiladu ar brofiadau o’r cynhwysion allweddol.
 - (2) Bwrw ymlaen i ddeddfu ar gyfer y Grym Cymhwysedd Cyffredinol, gan ddefnyddio’r awgrymiadau a wnaed wrth ymateb i ymghyngoriad y Llywodraeth flaenorol, ar gyfer cynghorau uchelgeisiol a blaengar sy’n chiwilio am fwy o ryddid i wasanaethu eu cymunedau.

- (3) Ail-danio cysylltiadau rhwng cyngorau cymuned ac awdurdodau lleol a darparu llwyfan i rannu'r enghreifftiau da ledled Cymru – a chynnal cynhadledd ar ôl etholiadau 2017.
- (4) Hwyluso proses o greu clystyrau o gynghorau cymuned llai, gan ddarparu swm bychan o arian i gefnogi'r gwaith cychwynnol o sefydlu'r trefniadau ar y cyd.
- (5) Deddfu i'w gwneud yn ofynnol ar gynghorau i ystyried a chynllunio ar gyfer eu hanghenion hyfforddiant a'u hadolygu'n rheolaidd.
- (6) Gofalu fod pobl yn cael gwybodaeth ac yn cael yr hawl i gyflwyno sylwadau ar unrhyw faterion a drafodir mewn cyfarfod Cyngor. Dysgu o ble y caiff hyn ei wneud yn dda a chwilio am gyfle deddfwriaethol i gryfhau darpariaethau presennol.
- (7) Comisynu'r Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau i lunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau cysondeb yn y ffordd y cynhelir adolygiadau cymunedol.
- (8) Cefnogi cynghorau cymuned i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn etholiadau cynghorau cymuned a chynyddu amrywiaeth, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar yr etholiadau yn 2017.

Cytunwyd y dylai y Cyngor edrych fewn i gael crynodeb o'i gwaith yn rheolaidd ym mhapur y Ffynnon.

- f. **Un Llais Cymru – Rheoliadau Drafft Cyfrifon ac Archwilio Cymru (Diwygiedig) 2016**
Nodwyd bod y cyswllt at y Rheoliadau drafft wedi eu cylchredeg i'r cynghorwyr,

8-12/16: Ceisiadau Cynllunio

- a. C16/1488/35/AC
Cais i Rhyddhau Amodau 3,10 ac 11 o ganiatad cynllunio C16/0963/35/LL – Tir gyferbyn
Dulas, Lon Ednyfed, Criccieth, LL52 OLD.
Penderfyniad: Dim sylwadau.

9-12/16 Ymgynghoriad ar gyflwyniad cyfyngiadau parcio yng Nghriccieth

Cafwyd hysbysiad dyddiedig 17 Tachwedd bod gwasanaeth Rheoleiddio Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno cyfyngiadau parcio yng Nghriccieth. Nodwyd bod y cynlluniau wedi ei rhannu i'r Cynghorwyr ar ebost.

Wellington Terrace – dirymu arfaethedig cyfyngiad presennol a ddangosir mewn glas aros 8yb-7yh 15 Mai-31 Awst; Dim aros ar unrhyw adeg arfaethedig a ddangosir mewn melyn;
Lôn Parc – llinellau melyn dwbl arfaethedig

Stryd Fawr Criccieth – estyniad arfaethedig o linellau melyn dwbl i'r cynnig blaenorol
Penderfyniad :dim gwrthwynenbid

10-12/16: Bwrdd Gwasnaethau Gwynedd a Môn: Holiadur 'Eich ardal chi beth sy'n bwysig@

Codwyd y mater yma yn y cyfarfod diwethaf (gweler cofnd 6-11/16).

Penderfyniad: y byddai'n fwy priodol i unigolion ddanfon ymateb, nag i ddanfon ymateb ar ran y Cyngor.

Y cyswllt ar gyfer ymateb oedd: <https://llesiantgwyneddamon.org/>..:

11-12/16: Adroddiad y Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu a Phrosiectau; Cyfarfod a gynhaliwyd 28

Tachwedd 2016

Yn y cyfarfod diwethaf penderfynnodd y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Llywio ar gyfer Cynllun Gweithredu Criccieth. Nodwyd y byddai creu Cynllun Cymunedol yn rhoi siawns i'r Cyngor Tref i weithio gyda'r gymuned leol i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Criccieth. Er mai y Cyngor Tref byddai yn llwyr gyfrifol am y Cynllun, byddai'n bwysig medru tynnu ar arbenigedd a sgiliau o'r tu allan i'r Cyngor ar gyfer y gwaith yma, ac hefyd i gael perchnogaeth o'r Cynllun –er mwyn galluogi cymuned Criccieth i rhannu syniadau ac i adeiladu consensws ar anghenion a blaenoriaethau ar gyfer yr ardal. Nodwyd bod gan y Cyngor Tref nifer o syniadau a blaenoriaethau yn barod, ac y byddai modd gweithredu ar rhai o rhain yn fuan. Maes o law byddai angen i'r Cyngor glustnodi swm penodol o arian ar gyfer y Cynllun, a byddai hefyd modd gwneud cais am grantiau o nifer o ffynhonnellau i ychwanegu at y coffrau yma, pan bydd cynllun wedi ei gymeradwyo.

Bu cyfarfod cyntaf y Grŵp ar 28/11 ac roedd cofnodion o'r cyfarfod hwnnw wedi ei gylchredeg i aelodau y Cyngor. Nodwyd bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor wedi'u penodi yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Grŵp. Gofynnwyd am sêl bendith y Cyngor i'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1 – gan dynu sylw yn arbennig i:

- Cymal 2 – enw y Grŵp sef Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth
- Cymal 4.1 Aelodaeth y Grŵp
- Cymal 7.2 Caniatad i'r Grŵp wario hyd at £500 heb rhoi gwybod ymlaen llaw i'r Cyngor Tref

Penderfyniad: Cymeradwyd y Cylch Gorchwyl (gweler atodiad 1)

Nodwyd o dan 5-11/16 y prosiectau sydd eisoes wedi eu cynnig gan Cyngor Tref Criccieth

Nodwyd hefyd y byddai y Grŵp yn gwahodd Cerys Thomas – a oedd wedi rhoi cyflwyniad i'r Cyngor Tref Mis Hydref, i gyfarfod nesaf y Grŵp er mwyn trafod y syniadau am brosiectau i'w cynnwys, gyda'r bwriad o'i crynhoi i ddogfen gychwynnol a fyddai'n sail i greu Cynllun cynhwysfawr.

Cytunwyd ar y ffordd ymlaen.

12-12/16: Goleuadau Nadolig

Nodwyd bod y noson i rhoi y goleuada Nadolig ymlaen yn y dref ar 1 Rhagfyr wedi bod yn llwyddiannus iawn a da oedd gweld Criccieth yn llond bwrlwm.

Cytunwyd: y dylid trafod ymestyn y goleuadau Nadolig yn y cyfarfod nesaf.

13-12/16: Cysgodfannau

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod y cysgodfannau yn barod i'w paentio.

Cytunwyd: y dylid newid y lliw o'r gwyrdd presennol i las, ac y dylai y Grŵp Llywio ddewis yr union liw.

14-12/16: Llwybr o Benaber i'r parc

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd i atgoffa y swyddog bod manylion y costau heb eu derbyn, ac nid oedd wedi derbyn ymateb.

15-11/16: Torri gwair

Yn dilyn y drafodaeth gydag Anwen Davies yn y cyfarfod blaenorol roedd gwybodaeth wedi do di law am y costau ar gyfer torri gwair gan Gyngor Gwynedd.

Roedd y costau a dderbyniwyd fel a ganlyn:

Ardal coch – blaenoriaeth Torri a Hel – 8 waith y tymor - £1268.11 y toriad

Ardal gwyrdd – Torri a gadael – 4 waith y tymor £1177.03 y toriad

Ardal glas – torri a gadael – 2 waith y tymor £2108.75

Cytunwyd: y dylid trafod y mater yn y cyfarfod nesaf ac i gael eglurhad ynglŷn â'r nifer o doriadau blynyddol yn yr ardaloedd coch oddiwrth Gyngor Gwynedd.

16-12/16: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol

Dim rhagor o wybodaeth. Nodwyd bod y Cadeirydd yn paratoi rhestr o eiddo y Cyngor.

17-12/16: Llwybrau cyhoeddus

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd i atgoffa y swyddog bod manylion y costau heb eu derbyn, ac nid oedd wedi derbyn ymateb

18-12/16 Caeëdig: Cynllun Pensiwn

Tynnwyd sylw y Cyngor i'r ohebiaeth oedd wedi dod gan 'The Pensions Regulator' ynglŷn ag oblygiadau y Cyngor ar gyfer cynllun pensiwn a chofrestru awtomatig, a'i fod yn ofynno i fynd drwy y broses yn gywir i osgoi cael dirwy neu erlyniad. Cytunwyd ar y ffordd ymlaen.

20-11/16: Derbyniadau

Dim

21-10/16: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE) Hydref	£76.60	(siec 101032)
• Cyflog y Clerc (Hydref)	£306.70	(siec 101033)
• Arwydd Enwau rhestr y Cyngor (Idris Wynn Jones)	£100.00	(siec 101034)
• Coeden Nadolig (Glasfryn)	£252.55	(siec 101035)

Rhodddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth

1. Cefndir

- 1.1 Mae Cyngor Tref Criccieth wedi penderfynu creu Cynllun Cymunedol ar gyfer Criccieth er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Criccieth.
- 1.2 Er y bydd y Cyngor Tref yn llwyr gyfrifol am y Cynllun, cydnabyddir bod rhaid tynnu ar arbenigedd a sgiliau o'r tu allan i'r Cyngor ar gyfer y gwaith yma.

2. Enw

Enw y grŵp yw **Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth**

3. Pwrpas ac Amcanion

Pwrpas y Grŵp Llywio yw i greu ac arwain y Cynllun Cymunedol ac i'w gwblhau yn llwyddiannus er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Criccieth.

Er mwyn gwneud hyn, yr amcanion yw :

- 3.1 Cynhyrchu, monitro a diweddarau amserlen ar gyfer y Cynllun Cymunedol
- 3.2 Adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cyngor Tref er mwyn cael cadarnhad ar gyfer penderfyniadau y Grŵp
- 3.3 Sicrhau bod y Cynllun Cymunedol yn cael ei gefnogi drwy ymgynghoriaeth gyda'r gymuned, busnesau, plwyfi cyfagos, y Cyngor Sir a phartïon trydydd parti eraill priodol.
- 3.4 Chwilio am ffyrdd o ariannu
- 3.5 Cysylltu gydag awdurdodau a sefydliadau eraill perthnasol er mwyn sicrhau Cynllun mor gynhwysol â phosib
- 3.6 Sicrhau ffyrdd o gynnwys cyn gymaint o'r gymuned a rhanddeiliad allweddol â phosib yn y broses drwy annog cyfranogiad a chasglu barn a syniad cyn gymaint â phosib o grŵpiau a sefydliadau yn y gymuned
- 3.7 Penderfynu ar y math o ymgynghoriad a chasglu gwybodaeth i'w ddefnyddio
- 3.8 Cydweithio gyda ac arwain gwaith ymgynghorwyr ac arbenigwyr i hwyluso y Cynllun
- 3.9 Sicrhau bod y Cynllun yn cydfynd gyda pholisiau cenedlaethol a Chynlluniau Strategol Cyngor Gwynedd a gweledigaeth a strategaeth graidd Cyngor Tref Criccieth.
- 3.10 Bod yn gyfrifol am y dadansoddiad yn deillio o'r ymgynghori a datblygu Cynllun Cymunedol Terfynol i'w gymeradwyo gan Cyngor Tref Criccieth.
- 3.11 Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei wireddu

4. Aelodaeth

- 4.1 Bydd y Grŵp Llywio yn cynnwys o leiaf pump (ac nid mwy na saith) o aelodau cyfredol o Gyngor Tref Criccieth, yr enwau i'w cytuno gan Cyngor Tref Criccieth. Hefyd bydd modd

cyfethol i fyny at bump o aelodau lleol o'r gymuned ar gyfer prosiectau arbennig, hefyd i'w cytuno gan Cyngor Tref Criccieth. Bydd modd i Glerc Cyngor Tref Criccieth fynychu y cyfarfodydd *ex-officio*, heb bleidlais.

- 4.2 Bydd modd i'r Grŵp Llywio gael cymorth ychwanegol i wneud tasgiau arbennigol yn ôl y galw.
- 4.3 Bydd aelodaeth o'r Grŵp Llywio yn wirfoddol.
- 4.4 Rhaid i bob aelod o'r Grŵp Llywio gydymffurfio i Gôd Ymarfer Cyngor Tref Criccieth a chyflwyno Cofrestr Buddion
- 4.5 Rhaid i bob aelod o'r Grŵp Llywio ddatgan unrhyw fater o ddiddordeb personol a fedr fod yn berthnasol i unrhyw benderfyniad neu argymhelliad.
- 4.6 Rhaid i bob aelod o'r Grŵp Llywio drîn pawb yn gwrtais a pharchus heb wahaniaethu ar sail oedran, rhywioldeb, tras ethnic, neu grefydd a chredo.
- 4.7 Rhaid i bob aelod o'r Grŵp Llywio hybu cydraddoldeb mynediad a chyfle.
- 4.8 Rhaid i unigolyn sydd am orffen aelodaeth o'r Grŵp Llywio, wneud hynny mewn ysgrifen i'r Cadeirydd.
- 4.9 Medr ethol aelodau yn lle unrhyw unigolyn sy'n gorffen aelodaeth o'r Grŵp Llywio.
- 4.10 Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Grŵp Llywio bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Cyngor Tref Criccieth.
- 4.11 Yn absenoldeb y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, bydd y Grŵp Llywio yn penodi Cadeirydd o'r aelodau presennol yn y cyfarfod.

5. Penderfyniadau

- 5.1 Mae gan y Grŵp Llywio yr hawl dirprwyiedig i weithredu ar ran Cyngor Tref Criccieth i fyny at gyflwyno y Cynllun Drafft. Bydd y Grŵp yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod misol o'r Cyngor Tref i nodi y cynnydd yn y gwaith o baratoi y Cynllun Cymunedol.
- 5.2 Mae'r broses o baratoi y Cynllun Cymunedol yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Tref fel y corff cyfrifol. Bydd pob cyhoeddiad, ymgynghoriad a gweithredoedd ymgynghori gyda'r gymuned yn cael eu gwneud ar ran y Cyngor Tref, gyda chydnyddiaeth o'r Cyngor Tref ym mhob cyfathrebiad sy'n gysylltiedig gyda'r prosiect.

6. Cyfarfodydd

- 6.1 Cynhelir cyfarfodydd o'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.
- 6.2 Bydd rhybudd drwy e-bost i aelodau'r Grŵp Llywio o leiaf dri diwrnod cyn y cyfarfod.
- 6.3 Bydd record o'r cyfarfodydd a'r nodiadau yn cael eu cadw a'u cylchredeg i'r aelodau ac yn cael eu cyflwyno i Gyngor Tref Criccieth.
- 6.4 Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn arferol trwy gytundeb y Grŵp Llywio. Os bydd angen pleidlais, yna bydd gan pob aelod o'r Grŵp Llywio un pleidlais. Bydd angen i 4 o aelodau fod yn bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau. Bydd angen mwyafrif o bleidleisiau ar gyfer cefnogi cais. Bydd gan y Cadeirydd un pleidlais penderfynol.

7. Cyllid

- 7.1 Bydd pob cais am grant ac ariannu yn cael ei wneud a'i gadw gan y Cyngor Tref, ac mi fydd arian penodol yn cael ei glustnodi ar gyfer gwaith y Cynllun Cymunedol
- 7.2 Bydd y Grŵp Llywio yn rhoi gwybod i'r Cyngor Tref am unrhyw wariant dros ben £500 cyn i'r arian gael ei glustnodi ar gyfer gwariant.
- 7.3 Bydd modd i aelodau o'r Grŵp Llywio gael ad-daliad costau sydd wedi eu cytuno ymlaen llaw yn dilyn gwaith ar y Cynllun Cymunedol.

8. Newid i'r Cylch Gorchwyl

8.1 Bydd modd newid y cyfansoddiad yma os y bydd dwy rhan o dair o'r aelodaeth yn cytuno i hynny mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio a gyda chymeradwyaeth y Cyngor Tref.

9. Diddymu y Grŵp

9.1 Bydd y Grŵp Llywio yn cael ei ddiddymu unwaith y bydd amcanion y Grŵp Llywio wedi eu cyrraedd a/neu os bydd dwy rhan o dair o'r aelodaeth a'r Cyngor Tref yn cytuno nad oes angen gwasanaeth y Grŵp Llywio ymhellach.

9.2 Bydd y Grŵp Llywio yn goruchwyllo dosbarthu unrhyw gyllid sydd ar ôl yn unol â rheolau neu amodau ffynhonellau y grantiau ac er budd gorau Cyngor Tref Criccieth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 9 Ionawr 2017, am 7.00 o'r gloch**

**** Bydd y rhaglen yma yn cau 31 Rhagfyr 2016 ****
